| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu |
| **DYDDIAD** | 11 Mehefin, 2026 |
| **TEITL** | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Priffyrdd, Peirianneg ac YGC 2025/26 |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Cyfle i Aelodau drafod a chraffu mesurau a blaenoriaethau gwella'r Adran |
| **AWDUR** | Steffan Jones, Pennaeth Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd. June Jones |

## 1. Pam fod angen ei graffu?

Cyflwyno diweddariad i Aelodau'r Pwyllgor graffu ar faterion perfformiad 2025/26 o fewn yr Adran.

## 2. Cefndir / Cyd-destun

### 2.1 Cefndir / Cyflwyniad

Pwrpas yr adroddiad yma yw eich diweddaru ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Priffyrdd, Peirianneg ac YGC. Mae hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yng Nghynllun y Cyngor; gwaith dydd i ddydd yr Adran; ynghyd â'r diweddaraf o ran cynllun arbedion a thoriadau.

Rydym yn gweithredu ar Gynllun y Cyngor 2023-28, ac yma 'rwyf yn adrodd ar y cynnydd a wnaed yn y flwyddyn 2025/26. Mae'r holl faterion wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu herio gennyf mewn cyfarfod herio perfformiad, ac 'rwyf yn fodlon gyda pherfformiad yr Adran.

### 2.2 Rhesymeg a Chyfiawnhad

#### 2.2.1 Perfformiad Prosiectau Cynllun y Cyngor

Mae'r cynnydd yn erbyn y cerrig milltir ar gyfer prosiectau o fewn Cynllun y Cyngor 2023-28 ble mae'r Adran yn arwain i'w gweld yn Atodiad 1. Gwelir fod yr Adran wedi gwneud cynnydd da ac wedi cwblhau'r prif gerrig milltir y prosiectau o fewn y Cynllun.

- **Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y Sir**

Drwy dderbyn cefnogaeth grant Cyfleoedd Chwarae gan Llywodraeth Cymru rydym wedi gwella ansawdd a hygyrchedd 29 man/meysydd chwarae er budd plant a phobl ifanc y sir drwy unai wneud gwelliannau neu osod offer newydd.

- **Gweithredu ar risgiau llifogydd**

Mae'r Strategaeth Llifogydd Lleol wedi ei gyflwyno i sylw Llywodraeth Cymru a bu i ni dderbyn eu sylwadau ar y cynnwys. Disgwylir cadarnhad ffurfiol i'w gymeradwyo yn chwarter cyntaf o'r flwyddyn.

- **Cymunedau Glân a Thaclus**

Mae Glanhawyr Tref wedi eu penodi yng Nghaernarfon a Bangor sydd wedi bod yn llwyddiant mawr. Byddwn yn ymestyn y trefniadau i dref Pwllheli a Porthmadog ar gyfer haf 2026. Drwy bwrcasu peiriannau ysgubo ffordd pwrpasol mae'r gwasanaeth wedi moderneiddio ei fflyd glanhau a thrwy hynny yn lleihau dibyniaeth ar hurio cerbydau.

### 2.2.2 Gwaith dydd i ddydd yr Adran (Mesurau Perfformiad)

Mae mesurau perfformiad yr Adran i'w gweld yn Atodiad 2. Fe welir bod yma 29 mesur sydd yn adlewyrchu pwrpas gwasanaethau'r Adran.

Mae'r mesurau yn cael eu trafod yn rheolaidd yn y cyfarfodydd Herio a Chefnogi Perfformiad ac yn dilyn ein cyfarfod fis Mai adroddir bod 75.9% o'r mesurau yn wyrdd. Mae hyn yn gadarnhad o'r gwaith da a nodir yn erbyn perfformiad y gwasanaethau dros y flwyddyn ddiwethaf. Fe welwch fod 24.1% wedi eu cofnodi mewn lliw ambr ac yn derbyn sylw pellach fel rhan o'r trafodaethau sydd ynghlwm a'r broses herio. Da cofnodi nad oes yr un mesur wedi ei gofnodi yn goch ar ddiwedd y flwyddyn.

Dyma drosolwg ar rai o fesurau'r Adran.

### Mesurau Corfforaethol/Adrannol

Mae rhain yn edrych ar berfformiad yr Adran o ran Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, Teitlau Mandadol, Hunanasesiad Iaith a chyfradd salwch yr Adran. Dylid nodi bod ein canran ymateb ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth ar ddiwedd 2025/26 yn 97.8% sydd yn gynnydd sylweddol ers llynedd ac yn cyfrannu at gyfradd ymateb y Cyngor. Mae gwaith yr adran i annog staff i gwblhau'r teitlau mandadol hefyd i'w ganmol gan bo naid sylweddol wedi bod ers dechrau'r flwyddyn. Mae dal gwaith i'w wneud ond bydd angen parhau i wella er mwyn cyrraedd cyfraddau uwch gan ganolbwyntio ar y modiwl Diogelu. Byddwn yn cyd-weithio gyda'r Hyfforddwr Diogelu Corfforaethol i wneud hyn.

### Cynnal Priffyrdd

Mae'r gwasanaeth yn delio gyda diffygion ar ein ffyrdd yn dda iawn ond yn cydnabod bod angen adolygu ein trefniadau i sicrhau bod y gwaith yn cael ei gofnodi yn gywir ar ein systemau i sicrhau data dibynadwy.

### Goleuo Stryd

Mae'r gwasanaeth Goleuo Stryd yn parhau i ymateb i ddiffygion o fewn eu targed amser o 5 diwrnod, ac yn wir yn ymateb iddynt ar gyfartaledd o fewn 2.8 diwrnod. Fodd bynnag, os oes nam ar ased sydd yn berchen i'r Grid Cenedlaethol, mae ganddynt 20 diwrnod gwaith i ymateb sydd tu hwnt i'n rheolaeth ni. Gall hyn ar adegau achosi rhwystredigaeth o ran y gwasanaeth i'r cwsmer.

**Gwasanaeth Fflyd**

Mae’r gwasanaeth yn perfformio yn dda iawn ac mae’r gwaith ar y system fflyd newydd wedi profi yn llwyddiant mawr. Mae’r gwaith o drosglwyddo fflyd y Cyngor i gerbydau “gwyrdd” yn parhau gyda 89 o geir neu faniau yn rhai trydan neu hybrid erbyn diwedd y flwyddyn yma. Yn ôl adroddiad gan y Gwasanaeth Ynni, Llywodraeth Cymru - Gwynedd oedd yr ail ymhlith awdurdodau gwledig Gwynedd o ran nifer y cerbydau “gwyrdd” oedd ganddynt.

**Gwasanaeth Edrychiad Stryd a TCC**

Yn ystod y flwyddyn mae’r gwasanaeth wedi bod yn cynnal adolygiad o’r Gwasanaeth Edrychiad Stryd ac yn sgil hynny yn treialu system newydd ar gyfer rheoli casgliadau biniau cyhoeddus. Mae lleoliadau biniau wedi eu mapio yn ddigidol a bydd gwybodaeth yn cael ei gasglu ar gynnwys a chyflwr y biniau sy’n cael eu gwagio. Bydd y data yma yn helpu i raglennu gwaith cynnal a chadw a blaenoriaethu lleoliadau biniau yn y dyfodol.

**Toiledau Cyhoeddus**

Yn ystod y flwyddyn mae’r gwasanaeth wedi llwyddo i ostwng y nifer dyddiau maent yn gymryd i ymateb i ymholiad. Ar hyd y flwyddyn roedd y gyfartaledd yn 20 dydd gwaith, ond erbyn diwedd y flwyddyn roedd nifer y dyddiau cyfartalog wedi gostwng i 4 dydd. Bydd y gwaith yma yn parhau ac yn edrych ar ffyrdd eraill i helpu cau ceisiadau yn amserol i’r cwsmer.

**Ymgynghoriaeth Gwynedd**

Mae YGC yn perfformio’n arbennig o dda ar hyn o bryd, gyda 7 o’u 8 mesur perfformiad yn wyrdd. Mae hyn yn adlewyrchu gwaith caled a safon uchel y tîm wrth gyflawni prosiectau cymhleth a sensitif ar draws y Sir ac oddi allan.

Amlygaf bod YGC bellach yn gweithio ar draws Cymru gyfan gyda gwaith rheolaidd yn ei le i sawl Awdurdod Lleol. Mae’r rhaglen waith yn parhau’n iach ac uchelgeisiol, gyda nifer sylweddol o brosiectau llifogydd, peirianneg sifil ac amgylcheddol ar y gweill.

Yn ogystal â darparu gwasanaethau craidd megis rheoli perygl llifogydd, dylunio seilwaith, arolygon tir a gwaith adeiladu, mae YGC bellach yn cynnig ystod eang o wasanaethau ymgynghorol arbenigol sy’n denu cleientiaid nid yn unig yng Ngwynedd ond ar draws Cymru gyfan. Mae’r tîm yn gweithio’n agos gyda chyrff cyhoeddus, cymunedau lleol a phartneriaid rhanbarthol i ddarparu atebion cynaliadwy sy’n gwella diogelwch, gwydnwch ac ansawdd bywyd.

Mae arbenigedd YGC mewn rheoli prosiectau mawr, ynghyd â’u gallu technegol cryf, yn golygu eu bod yn chwarae rhan allweddol mewn datblygu seilwaith hanfodol, gwella amddiffynfeydd rhag llifogydd, a chyflwyno prosiectau sy’n cefnogi nodau ehangach y Cyngor o ran dad garboneiddio, addasu i newid hinsawdd a chynllunio tymor hir.

‘Rwyf yn falch o nodi i YGC fod yn parhau i dyfu ei enw da fel tîm o Ymgynghorwyr gyda rhagoriaeth beirianyddol yng Nghymru, gan ddarparu gwasanaeth proffesiynol,

dibynadwy ac arloesol sy’n gwneud cyfraniad sylweddol i’r sir a thu hwnt. Drwy hyn yr ydym yn sicrhau cyfleon swyddi lleol yma yng Ngwynedd yn y maes ymgynghoriaeth.

### 2.2.3 Adroddiadau Archwilwyr Allanol

Mae’r Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC yn dal, ac yn cynnal tair achrediad allweddol sef BSI — ISO 45001 (Iechyd a Diogelwch), ISO 14001 (Amgylcheddol) ac ISO 9001 (Ansawdd) — sy’n sail gadarn i’n gwaith ar draws yr Adran. Mae’r safonau hyn yn sicrhau ein bod yn gweithredu gyda’r lefel uchaf o ddiogelwch, rheolaeth amgylcheddol ac ansawdd, ac yn rhoi hyder i’n cleientiaid a’n partneriaid yn y gwasanaeth a ddarperir. Un o ofynion ein gwaith drwy gytundeb lefel gwasanaeth gyda Asiantaeth Cefnffyrdd ydyw ein bod yn meddu ac yn cadw yr achrediadau yma.

Yn dilyn yr archwiliadau allanol dros y flwyddyn, gallwn adrodd yn gadarnhaol iawn fod nifer o sylwadau cefnogol wedi’u derbyn gan yr archwilwyr. Yn bwysicaf oll, ni chodwyd unrhyw faterion mewn perthynas â chadw neu gynnal y safonau, gan adlewyrchu gwaith trefnus a phroffesiynol y tîm.

Mae’r canlyniad yn dystiolaeth o ymrwymiad parhaus yr Adran i welliant, tryloywder ac arweinyddiaeth o ran arferion gorau yn y meysydd Iechyd a Diogelwch, Amgylcheddol ac Ansawdd, ac mae’n cefnogi ein gallu i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel ar draws pob maes o’n gwaith.

### 2.2.4 Cynlluniau Arbedion a Thoriadau

Cyfanswm cynlluniau Arbedion 2025-26 oedd £533,500. Mae’r Adran wedi cyflawni gwerth £212.5k gyda gwerth £130k wedi eu dileu a gwerth £191k yn llithro. Bydd yr Adran yn gweithredu i gyfarch yr arbedion sydd wedi llithro yn ystod 2026-27.

## 3. Ymgynghori

Mae’r adroddiad wedi ei chreu ar sail gwybodaeth a gyflwynwyd i gyfarfod diweddaraf herio a chefnogi perfformiad yr Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC, gyda’r Cyfarwyddwr Corfforaethol, y Pennaeth Adran, Rheolwyr Gwasanaeth a minnau yn bresennol yn y cyfarfod hwn.

### Atodiadau

**Atodiad 1:** Adroddiadau cynnydd cerrig milltir prosiectau Cynllun y Cyngor 2023-28

**Atodiad 2:** Mesuryddion Perfformiad yr Adran